



Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

29 Tachwedd 2021

Annwyl Elin

### **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 04:00 o'r gloch ar 30 Tachwedd 2021, cyn y gellir ei osod. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a bwriadaf ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ar 30 Tachwedd.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 er mwyn:

- **Dileu profion llif unffordd fel opsiwn ar gyfer profion diwrnod 2 ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu'n llawn.**
- **Ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sydd wedi eu brechu'n llawn hunan-ynysu o'r adeg y maent yn cyrraedd nes iddynt gael canlyniad negyddol i'w prawf diwrnod 2.**

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services